OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 1806

## Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005

## RHAN 11

DARPARIAETHAU TERFYNOL

**Arbedion i freintiau penodol**

**71.**—(1) Ni ddylid ystyried bod dim yn y Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson i ddangos unrhyw ddogfennau neu gofnodion pe byddai hawl ganddo i wrthod dangos y dogfennau neu'r cofnodion hynny yn unrhyw achos mewn unrhyw lys ar y sail eu bod yn destun braint broffesiynol gyfreithiol, neu'n awdurdodi unrhyw berson i gymryd meddiant o unrhyw ddogfennau neu gofnodion sydd ym meddiant person a fyddai â'r hawl honno.

(2) Ac eithrio fel a ddarperir ym mharagraff (3), ni ddylid dehongli dim yn y Rheoliadau hyn fel pe bai'n ei gwneud yn ofynnol i berson ateb unrhyw gwestiwn neu roi unrhyw wybodaeth pe byddai gwneud hynny'n argyhuddo'r person hwnnw neu briod y person hwnnw.

(3) Rhaid i berson gydymffurfio â chais gan yr Asiantaeth i roi gwybodaeth yn unol â rheoliad 55(2), er y byddai gwneud hynny'n argyhuddo'r person hwnnw neu briod y person hwnnw, ond ni chaniateir i wybodaeth a roddir yn ymateb i gais o'r fath gael ei chyflwyno yn dystiolaeth mewn unrhyw achos troseddol yn erbyn y person hwnnw neu briod y person hwnnw.

**Dirymiadau ac arbedion**

**72.**—(1) Yn ddarostyngedig i'r paragraffau canlynol, dirymir Rheoliadau 1996.

(2) Os symudwyd llwyth o fangre cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, a bod nodyn traddodi wedi'i godi mewn perthynas â'r llwyth hwnnw o dan Reoliadau 1996, yna—

(a) am gyfnod o 72 awr ar ôl i'r Rheoliadau hyn ddod i rym yn eu cyfanrwydd—

(i) mae Rheoliadau 1996 yn parhau i fod yn gymwys ym mhob ffordd arall i'r llwyth hwnnw;

(ii) nid yw darpariaethau'r Rheoliadau hyn (heblaw am reoliad 62 (dyletswyddau cyffredinol y deiliad ar achlysur argyfwng neu berygl difrifol)) yn gymwys i'r llwyth hwnnw yn ystod y cyfnod hwnnw;

(b) ar ôl hynny—

(i) mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i'r llwyth hwnnw ac eithrio nad yw'r gofyniad i roi ateb chwarterol traddodai mewn perthynas â'r llwyth hwnnw yn unol â rheoliad 53 yn codi; a

(ii) mae'r gofyniad i'r traddodai anfon copi o'r nodyn traddodi a anfonwyd i'r Asiantaeth yn parhau i fod yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw lwyth a anfonwyd yn unol â Rheoliadau 1996.

**Diwygiadau Canlyniadol**

**73.** Mae Atodlen 11 (sy'n gwneud diwygiadau canlyniadol i'r ddeddfwriaeth) yn effeithiol.

**Darpariaethau Trosiannol**

**74.** Mae Atodlen 12 (sy'n gwneud darpariaethau trosiannol cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym) yn effeithiol.